CYNLLUN DEWCH AM DRO HEDDLU GWENT

: YMWRTHODIAD / FFURFLEN CYTUNDEB CYFRINACHEDD

Rhaid i'r arsyllwr ddarllen a llofnodi'r hysbysiad hwn cyn i'r lleoliad gael ei gynnal.

CYFLWYNIAD

Mae Heddlu Gwent wedi sefydlu cynllun "dewch am dro" ("y Cynllun") sy'n rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd ymuno â swyddogion yr heddlu ar batrôl er mwyn arsylwi eu gwaith.

Mae'r ymwrthodiad hwn yn rheoli eich cyfranogiad yn y Cynllun. Drwy gymryd rhan yn y Cynllun, rydych yn cytuno i rwymo i amodau'r ymwrthodiad hwn.

Rydych yn cytuno trwy hyn:

1. Eich bod yn cymryd rhan yn y Cynllun ar eich menter eich hun a'ch bod yn ymwybodol o risg bosibl o ddamwain neu anaf wrth gymryd rhan yn y Cynllun;
2. Eich bod wedi cael yr holl wybodaeth ynghylch eich cyfranogiad yn y Cynllun, sy'n cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:
   2.1 Gwybodaeth sy'n rhoi manylion am bwrpas y cynllun;
   2.2 Y rheolau (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r holl reolau iechyd a diogelwch);
   2.3 Y gweithdrefnau sy'n berthnasol i'r Cynllun,
   a thrwy hyn yn cytuno i gydymffurfio â phob rheol a gweithdrefn o'r fath;
3. I ddilyn yr holl gyfarwyddiadau a roddir gan yr Heddlu;
4. I wisgo siaced gwelededd uchel â'r gair "Arsyllwr" arni pan roddir cyfarwyddyd i chi wneud hynny;
5. I gadw unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol neu bersonol yr ydych wedi'i chael yn ystod eich cyfranogiad yn y Cynllun yn gyfrinachol. Mae'r Heddlu yn sefydliad gofalgar a phroffesiynol iawn sy'n rhoi pwyslais mawr ar gyfrinachedd. Mae ein llwyddiant wrth leihau troseddau, gan ddwyn troseddwyr o flaen eu gwell a meithrin ymddiriedaeth a hyder ymhob rhan o'r gymuned yn dibynnu ar ein henw da am gyfrinachedd. Golyga hyn fod yn RHAID cadw unrhyw wybodaeth am unigolion a gweithrediadau yn Heddlu Gwent yn gyfrinachol.

   Er mwyn cael y budd mwyaf o'ch lleoliad, bydd angen i chi fod mor agos â phosibl at y gweithgaredd rydych yn ei arsylwi. Golyga hyn y gallwch ddod yn ymwybodol o wybodaeth bersonol a / neu sensitif. Felly, fel cyfranogwr yn y Cynllun, rhaid i chi gadw cyfrinachedd llym mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth/dogfennaeth y byddwch yn ei gweld, ei chlywed neu ei darllen. At ddibenion y cytundeb hwn mae gwybodaeth yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: air llafar, gan gynnwys cyfathrebu radio, deunydd ysgrifenedig ac argraffedig, systemau cyfrifiadurol a deunydd a/neu wastraff cyfrinachol.

   Gallai unrhyw drafodaeth neu ddatgeliad pellach o wybodaeth o'r fath neu gadw unrhyw ddogfennaeth a gafwyd yn ystod y Cynllun arwain at dorri'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Pholisi Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu. Gallai defnydd amhriodol o'r fath hefyd arwain at dramgwyddau Troseddol.
6. I ddarparu dogfennau adnabod ffotograffig er mwyn profi eich bod wedi cyrraedd deunaw (18) oed, fel sy'n ofynnol er mwyn cymryd rhan yn y Cynllun. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, mae'n bosibl y rhoddir caniatâd i chi gymryd rhan yn y Cynllun os ydych rhwng un ar bymtheg (16) a deunaw (18) oed. Os ydych yn perthyn i'r categori hwn, rydych yn cytuno i ddarparu cadarnhad ysgrifenedig dilys cyn i'r Cynllun ddechrau bod eich rhieni yn cydsynio i chi gymryd rhan;
7. Cyn i chi gymryd rhan yn y Cynllun, eich bod wedi rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw gyflwr meddygol sydd gennych a phob un o'r cyflyrau hynny;
8. Eich bod yn ffit yn gorfforol ac yn abl yn feddyliol i gymryd rhan yn y Cynllun;
9. Cyn i chi gymryd rhan yn y Cynllun, eich bod wedi datgelu unrhyw gofnodion troseddol sydd gennych;
10. Os na allwch ddarparu cydsyniad ar gyfer triniaeth feddygol yn ystod eich cyfranogiad yn y Cynllun, rydych trwy hyn yn awdurdodi'r Heddlu i weithredu ar eich rhan mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau, cysyniadau a thriniaeth feddygol ofynnol;
11. Na fydd yr Heddlu yn atebol i chi mewn unrhyw achos am anaf personol nac unrhyw golledion neu ddifrod i'ch eiddo neu'ch person a ddioddefir gennych chi neu unrhyw berson sy'n hawlio oddi tanoch neu drwoch, boed hynny'n digwydd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol neu'n digwydd yn syth neu'n ganlyniadol.

Nid oes dim yn yr ymwrthodiad hwn yn eithrio atebolrwydd am farwolaeth neu anaf personol a achosir gan esgeulustod yr Heddlu, ei swyddogion a'i weithwyr neu unrhyw atebolrwydd arall na ellir ei eithrio gan y gyfraith.

LLOFNOD Y CYFRANOGWR

Enw: .....

Llofnod: ..... Dyddiad: / /

Cyfeiriad: .....

.....

..... Cod Post: .....

Cyfeiriad Ebost: .....